| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **27 MAI 2021** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2021 – 31 MAWRTH 2022** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2021/22 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

1.2 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach fyth o ystyried effaith sylweddol a chyflym pandemig COVID-19 ar y Cyngor.

1.3 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu***

2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith yma, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.

2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned; adnodd staffio'r Uned yw 7 swydd llawn amser ac un archwiliwr dros dro.

2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw.

2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, a drafodwyd gyda pob Pennaeth. Roedd hyn yn gyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

2.6 Mae Cynllun Archwilio 2021/2022 yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol. Mae Archwilio Cymru wedi penderfynu ymestyn y Fenter i dargedu'r risgiau twyll sy'n gysylltiedig â grantiau neu daliadau Covid-19 a wneir gan awdurdodau lleol. Ni fydd swyddogion Archwilio sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o brosesu taliadau grant yn cynnal y gwaith hyn i sicrhau annibyniaeth a gwahaniad dyletswyddau priodol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

2.7 Mae'r cynllun archwilio hwn yn gynllun gydag hyblygrwydd i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiau. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y drefn arferol. Nid yw'n ddisgwyliad i staff Archwilio yn cynorthwyo gyda gweinyddu Grantiau i Fusnesau na chynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu eleni.

2.8 I sicrhau hyblygrwydd, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio methodoleg AGILE ble bo hynny'n bosibl. Prif amcanion cymhwyso egwyddorion AGILE yw:

- Gwella ansawdd archwilio
- Cylchoedd archwilio byr
- Cynnydd mewn rhyngweithio â chleientiaid
- Darparu mewnwelediadau

Mae Agile yn darparu modd hyblyg a dynamig i Gynllunio Archwilio Mewnol o ganlyniad i fonitro risg yn barhaus.

2.9 Fel y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor, mae swyddogion Archwilio Mewnol bellach yn gweithio o gartref hyd y gellir rhagweld, ac felly bydd cynnal archwiliadau lle mae angen ymweliad â'r sefydliad yn gyfyngedig. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau gyda cyflawni ei ddyletswyddau tra'n parchu unrhyw gyfarwyddyd a gaiff ei roi mewn lle gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnal ei weithgareddau o fewn unrhyw gyfyngiadau a osodir.

**3. ADNODDAU SYDD AR GAEL**

3.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 715 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2021/22. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd ac ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

| | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb | 56 diwrnod | 55 diwrnod |
| Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol | 35 diwrnod | 35 diwrnod |
| Darpariaeth ar gyfer dilyniant | 35 diwrnod | 45 diwrnod |

3.2 Mae Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sawl cleiant allanol gan gynnwys oddeutu 70 o gynghorau tref a chymuned, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Byw'n Iach a GwE. Mae'r dyddiau hyn eisoes wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r nifer dyddiau sydd ar gael i gyflawni Cynllun Cyngor Gwynedd, h.y. 715 diwrnod.

3.3 Bydd Cynllun Archwilio 2021/2022 yn gynllun gyda hyblygrwydd er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gefnogi'r Cyngor gydag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg ac i weithredu'n brydlon i unrhyw risgiau a ddeillir yn sgil y materion hynny.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

**Atodiad 1**

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/2022

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 15 | Cynnig cyngor a chefnogaeth i reolaeth fewnol. |
| Datganiadau Cyflogaeth | 8 | Mae bellach yn ofynnol bod datganiadau cyflogaeth yn cynnwys cymal mewn perthynas ag ymgymryd â hyfforddiant statudol, e.e. diogelu. |
| Newid Hinsawdd | 15 | Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd y eu lle gan yr awdurdod i gwrdd â newid hinsawdd. |
| Trefniadau Diogelu | 15 | Adolygiad o drefniadau hyfforddiant ar yr ystod o fodiwlau diogelu. Mae y maes hwn wedi ei adnabod yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. |
| Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | 4 | Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau yn y maes Rheoli Gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau ar draws y Cyngor. |
| Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19 | 15 | Adolygu trefniadau busnes a fabwysiadwyd yn sgil y pandemig Covid-19. |
| Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd | 20 | Gwirio addasrwydd cynlluniau parhad gwasanaeth a gwirio bod adroddiadau gwersi a ddysgwyd wedi eu cyflwyno a bod log risgiau yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfredol. |
| Brexit | 15 | Mae hwn wedi ei amlygu'n "goch" yn y Cofrestr Risg Corfforaethol (sgôr risg - 25). |
| Côd Rheoli Ariannol | 15 | Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol i weithredu ar ofynion y Côd Rheoli Ariannol a ddaeth i rym 1 Ebrill 2020. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu cydymffurfiaeth gyda'r Côd. |
| Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021 | 10 | Nod y Ddyletswydd a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021 yw annog gwell prosesau o wneud penderfyniadau, gan sicrhau canlyniadau mwy cyfartal. Bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio pa gamau sydd mewn lle ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd. |
| Trefn Gwynion | 10 | Adolygiad o gydymffurfiaeth â safonau cwynion yr Ombwdsman. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| Dynodiadau Iaith | 12 | Adolygiad o allbynnau'r Tîm Prosiect Dynodiadau Iaith mewn perthynas â mapio lefelau iaith swyddi a sgiliau staff. |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | 40 | Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a'r Fenter Twyll Genedlaethol a gaiff ei rhedeg gan Archwilio Cymru. Gall yr ymchwiliadau hyn gynnwys unrhyw elfen o dwyll a gyflawnwyd drwy fanteisio ar bandemig Covid-19. |
| Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau | 5 | Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau yn y maes Rheoli Gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau ar draws y Cyngor. |
| Defnydd o Gardiau Pryniant | 25 | Adolygiad o wariant a'r defnydd a wneir ar gardiau credyd a chardiau pryniant ynghyd â gwirio trefniadau i gael arian parod a beiriannau "twll yn y wal". |
| **ADDYSG** | | |
| ***Adnoddau*** | | |
| Grant Datblygu Disgyblion | 10 | Nid yw'r GDD wedi ei ymgorffori yn y Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân. |
| Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | 15 | Mae'r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. |
| Grant Addysg Ôl-16 | 3 | Disgwyliad yn yr amodau ariannol. |
| Cwmni Cynnal – Gwasanaethau i Ysgolion | 25 | Trosolwg o'r gwasanaeth a dderbynnir gan ysgolion Gwynedd gan Gwmni Cynnal. |
| Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae | 20 | Mae hwn yn faes a adnabuwyd yn 2019-20 wrth adolygu trefniadau cynnal a chadw meysydd chwarae sydd dan ofal yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. |
| ***Ysgolion*** | | |
| Ysgolion Cyffredinol | 5 | Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori. |
| **AMGYLCHEDD** | | |
| ***Gwarchod y Cyhoedd*** | | |
| Hylendid Bwyd | 15 | Adolygiad o'r effaith ar y gwasanaeth o ganlyniad i arall-gyfeirio staff i'r Gwasanaeth POD. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| ***Trafnidiaeth a Gofal Stryd*** | | |
| Grant Trafnidiaeth Leol | 12 | Adolygiad o’r trefniadau mewn perthynas â thrafnidiaeth leol. |
| ***Uned Cefn Gwlad a Mynediad*** | | |
| Grantiau Cefn Gwlad | 12 | Gwirio’r trefniadau ar gyfer gweinyddu grantiau penodol, megis grantiau y Bartneriaeth Natur Leol (Local Nature Partnership). |
| **CYLLID** | | |
| ***Ar draws yr adran/corfforaethol*** | | |
| Diogelwch a Systemau TG – Digonolrwydd Data | 15 | Adolygiad o’r trefniadau i sicrhau diogelwch data personol sydd yn y cwmwl yn sgil goblygiadau Brexit. |
| Trefniadau Adfer Trychineb | 15 | Adolygiad o'r trefniadau i sicrhad parhad gwasanaeth mewn argyfwng. |
| ***Cyflogau*** | | |
| Newid Data Sefydlog | 12 | Adolygu'r trefniadau dros newidiadau mewn data yn sgil cyflwyno trefniadau newydd drwy y porth hunanwasanaeth ac yn benodol gwirio newidiadau i gyfrifon banc (adroddiad ISWAS) |
| Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan 2) | 10 | Gwirio bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r taliad ychwanegol i weithwyr yn y maes gofal. |
| Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal | 15 | Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r taliadau bonws. |
| ***Cyfrifeg*** | | |
| Rheoli Prosiect – Uwchraddio E-Financials | 12 | Adolygiad i sicrhau bod cynllun prosiect wedi ei sefydlu ar gyfer yr uwchraddiad. |
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-21 | 4 | Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-21 | 4 | Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-21 | 10 | Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| ***Pensiynau*** | | |
| Taleion Newydd | 12 | Adolygiad o'r trefniadau dros sefydlu taleion newydd. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| ***Refeniw*** | | |
| Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru (2021-22) | 25 | Adolygiad o'r trefniadau gweinyddu grantiau - ar gais y Pennaeth Cyllid. |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| ***Adfywio Cymunedol*** | | |
| Cronfa'r Degwm | 3 | Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000. |
| ***Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau*** | | |
| Storiel | 6 | Mae Storiel wedi derbyn sgôr risg o 20 ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. |
| ***Cefnogi Busnes*** | | |
| Grantiau Cymorth Busnes | 15 | Adolygiad o'r trefniadau gweinyddu grantiau - ar gais y Pennaeth Economi a Chymuned. |
| ***Morwrol a Pharciau Gwledig*** | | |
| Cynllun Rheoli Traethau | 10 | Mae hwn yn faes o risg uchel. (sgôr risg 20) |
| ***Strategaeth a Datblygu*** | | |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 20 | Trefniadau llywodraethu prosiectau penodol y Bwrdd - sef cydbwyllgor o blith awdurdodau lleol gyda chynrychiolwyr o bartneriaid allweddol megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach. |
| Cynllun Llanbedr | 12 | Gwiriad o drefniadau rheoli'r prosiectau ar gynllun sydd â gwerth oddeutu £25m –bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau prynu tir. |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| ***Ar draws yr Adran*** | | |
| Mesurau Diogelu Rhyddid | 10 | Trefniadau newydd sydd yn disodli DoLS – adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cydymffurfio â'r Mesurau Diogelu Rhyddid . |
| ***Oedolion*** | | |
| Dyledion | 30 | Adolygiad o ddyledion a'r trefniadau adfer. |
| ***Preswyl a Dydd*** | | |
| Diogelu Asedau Preswylwyr | 15 | Adolygiad o'r trefniadau/protocol ar gyfer sefydlu dirprwy neu apwyntai i ddefnyddwyr gwasanaeth. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| ***Plant a Theuluoedd*** | | |
| Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant | 12 | Mae'r maes hwn wedi ei adnabod ar y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd trais yn y gwaith, gweithio'n unig a natur a nifer llwythi achos. |
| Asesiadau Statudol (AMHP) | 20 | Mae hwn yn ofynnol yn unol â Mesur Iechyd Meddwl Cymru. |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | |
| Cynnal Tiroedd | 15 | Effaith o golli cytundeb ar y gwasanaeth. |
| Asesiadau Risg – Cynnal Priffyrdd | 15 | Gwirio cynnwys a phriodoldeb asesiadau risg. |
| **TAI AC EIDDO** | | |
| ***Digartrefedd a Tai Cefnogol*** | | |
| Grant Cymorth Tai | 10 | Disgwyliad yn amodau'r grant. |
| ***Tir ac Eiddo'r Cyngor*** | | |
| Manddaliadau | 12 | Adolygiad i wirio cynnydd ers yr archwiliad olaf a gynhaliwyd. |
| Trefniadau Glanhau | 15 | Adolygiad o drefniadau glanhau prif swyddfeydd y Cyngor. |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| ***Ar draws yr adran*** | | |
| Trefniadau Rheoli Prosiect | 20 | Adolygiad wedi ei gynnwys ar gais Pennaeth YGC. |
| **Cyfanswm Dyddiau** | **715** | |